

Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn– Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Pam newid o Orchmynion Rheoli Cŵn i Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus?

Mae hyn yn ofyniad dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismaona 2014. Ar 20 Hydref 2017, daw pob un o Orchmynion Rheoli Cŵn presennol y Cyngor yn Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus.

Er bod y newid yn awtomatig yn y gyfraith, rydym ni fel Cyngor yn manteisio ar y cyfle hwn i adolygu ein rheolaethau cŵn cyfredol, felly rydym yn ymgynghori ar Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus diwygiedig.

Pam bod angen y Gorchymyn hwn?

Rydym yn derbyn bod y mwyafrif o berchnogion cŵn yn gyfrifol, ond mae rhai anghyfrifol sydd ddim. Yn ogystal â hyn, er ein bod yn Sir sy'n hoff iawn o gŵn ar y cyfan, mae presenoldeb ci yn gallu codi ofn mawr ar rai pobl. Mae hefyd nifer o bobl sy'n dymuno mwynhau ardaloedd cyhoeddus heb gŵn o gwmpas. Felly, rydym yn credu bod y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus diwygiedig arfaethedig, fel gyda'r Gorchymynion Rheoli Cŵn a'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus trawsnewidiedig o'i flaen, yn ymateb teg, cytbwys a chymesur i faterion cyfredol yn y Sir. Rydym yn credu ei fod yn angenrheidiol a chymesur o ran y rheolaethau y mae'n ei orfodi, ac yn rheolaethau rhesymol yr ydym yn credu a ddylai fod yn berthnasol i holl berchnogion cŵn heblaw am y rhai a eithriwyd gan y Gorchymyn. Mae hyn yn angenrheidiol i gydbwysu anghenion a dymuniadau pawb ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

I ba dir y mae'r Gorchymyn hwn yn berthnasol iddo?

Yn gyffredinol, oni bai ei fod wedi'i enwi yn benodol fel parth gwaharddiad neu ardal cŵn ar dennyn, bydd y Gorchymyn yn berthnasol i'r holl ardaloedd cyhoeddus yn Sir Conwy. I'r diben hwn, mae "man cyhoeddus" yn golygu unrhyw le y mae gan y cyhoedd, neu unrhyw ran o'r cyhoedd, fynediad iddo, ar ôl talu neu fel arall, fel hawl neu drwy gael ganiatâd. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd dan do a ddefnyddir gan y cyhoedd.

A yw hyn yn berthnasol i dir nad yw'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy?

Ydi, mae'r gofyniad i lanhau ar ôl eich ci, rhoi eich ci ar dennyn pan ofynnir i chi wneud hynny, a bod â dull o godi baw ci, yn berthnasol i bob tir cyhoeddus sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad uchod, gan gynnwys tir mewn perchnogaeth breifat a ddefnyddir gan y cyhoedd (neu ran o'r cyhoedd). Ond, gall berchennog, preswlydd neu berson sy'n rheoli tir preifat, roi caniatâd i berson sy'n gyfrifol am gi beidio glanhau ar ôl eu ci ar ei dir. Gallant roi'r caniatâd i unigolion, grwpiau o bobl, neu bawb sy'n defnyddio eu tir. Trwy wneud hyn, gallant eithrio eu hunain o'r Gorchymyn, fel nad yw'n berthnasol i'w tir.

A yw hawliau tramwy yn berthnasol i'r Gorchymyn?

Ydyn, mae pob hawl tramwy, dim ots a ydynt yn croesi tir cyhoeddus neu breifat, yn cyfrif fel tir yn yr awyr agored y caniateir i'r cyhoedd gael mynediad iddo.

Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn– Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Pa gamau alla i eu cymryd i wneud yn siŵr fy mod yn cydymffurfio â'r Gorchymyn?

Rydym yn argymhell eich bod yn mynd â rhaw faw neu fagiau gyda chi bob amser pan fyddwch yn mynd â'ch ci am dro. Peidiwch â mynd i ardal sydd wedi'i ddynodi yn ardal gwahardd cŵn. Cadwch eich ci ar dennyn pan fo angen ac, ym mhob lleoliad arall, cadwch eich ci dan reolaeth agos.

Pryd ddaw'r Gorchymyn i rym?

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynigion hyn. Cyn gwneud Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus diwygiedig, bydd y Cyngor yn ystyried yr ymatebion i'r ymarfer ymgynghori. Os yw'r Cyngor yn penderfynu symud ymlaen gydag unrhyw GDMC diwygiedig, bydd y dyddiad gweithredu yn cael ei gyhoeddi cyn y daw'r pwerau i rym.

Mae copi o'r Gorchymyn diwygiedig arfaethedig sy'n destun yr ymgynghoriad ar gael ar wefan y Cyngor.

Pwy fyddwn ni'n ymgynghori â nhw?

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys yr holl fudd-ddeiliaid a all gael eu heffeithio, gan gynnwys:

- Y Cyhoedd
- Y Prif Swyddog Heddlu
- Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Aelodau Etholedig
- Perchnogion / Preswylwyr tir yn y Gorchymyn
- Cynghorau Tref, Cymuned a Phlwyf
- Ysgolion
- Cymdeithasau Tai
- Cynrychiolwyr Cymunedol
- Yr Awdurdod Priffyrdd
- Budd-ddeiliaid eraill a all gael eu heffeithio

Yn fyr, gall bawb ddweud eu dweud ar y cynigion.

Am ba mor hir fydd y Gorchymyn yn para?

Bydd y Gorchymyn yn para am gyfnod o 3 blynedd, ond gall gael ei ymestyn yn y man. Mae proses ymgynghori statudol y mae'n rhaid i ni ei dilyn os ydym yn bwriadu amrywio'r gorchymyn, ei ymestyn neu wneud unrhyw Orchmynion ychwanegol.

A oes unrhyw eithriadau i'r Gorchymyn?

Ni fydd unrhyw beth yn y Gorchymyn yn berthnasol i berson sydd-

(a) wedi'i gofrestru yn ddall ar gofrestr a luniwyd dan adran 29 Deddf Cymorth Gwladol 1948; neu

(b) ag anabledd sy'n effeithio eu symudedd, deheurwydd, cydlyniad corfforol neu eu gallu i godi, cario neu symud gwrthrychau bob dydd, mewn perthynas â chi a hyfforddwyd gan elusen benodedig a'u bod yn dibynnu arno am gymorth.

Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn– Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

1. Baw Cŵn

Beth sy'n ofynnol dan y rhan hon o'r Gorchymyn?

Mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gi lanhau ar ei ôl yn syth os yw'r ci yn baeddu ar dir cyhoeddus y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddo.

I ba dir y mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol?

Mae'r Rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol i bob tir cyhoeddus ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd fel parciau a mannau agored eraill, llwybrau troed, priffyrdd, llwybrau ceffylau ac ardaloedd eraill y mae'n rhesymol y gall berson arall gael mynediad iddo.

Mae'r rhan hon yn eithrio eich gerddi blaen a chefn ond mae'n cynnwys ardaloedd cymunedol awyr agored mewn fflatiau.

Lle ddylwn i gael gwared ar faw cŵn?

Os yw eich ci'n baeddu ar dir cyhoeddus, gellir rhoi'r gwastraff wedi'i fagio mewn unrhyw fin sbwriel cyhoeddus, bin gwastraff cŵn neu fin gwastraff cartref. Cyfrifoldeb y perchennog, neu'r person sy'n gyfrifol am y ci ar y pryd, yw cael gwared ar y baw mewn modd cyfrifol.

Rwyf wedi rhoi'r baw ci mewn bag ond nid oes bin gerllaw. Beth ddylwn ei wneud?

Os nad oes biniau gerllaw, mae'n rhaid i chi gadw'r baw ci nes eich bod yn cyrraedd bin sbwriel cyhoeddus neu fin baw ci. Fel arall, gallwch fynd ag o adref gyda chi a'i roi yn eich bin gwastraff cartref. Os na allwch roi'r baw ci yn y bin gan fod bob bin gerllaw yn llawn, rhowch wybod i affch@conwy.gov.uk a byddant yn dod i'w gwagio.

Ga i ddod yn ôl i glirio'r baw yn ddiweddarach, neu i gasglu'r bag yr wyf wedi'i guddio?

Na chewch, mae'n rhaid i chi glirio'r baw ci yn syth, ac mae'n rhaid mynd â'r bag sy'n cynnwys y baw ymaith heb unrhyw oedi.

Pam na allaf adael y bag nes y byddaf yn dod yn ôl yr un ffordd?

Mae tystiolaeth gref sy'n dangos bod unigolion yn glanhau ar ôl eu cŵn ond yna yn anghyfrifol wrth gael gwared ar y bagiau llawn baw. Mae hyn yn cael ei ystyried yn drosedd taflu sbwriel a gall arwain at Rybudd Cosb Benodedig.

Ni welais fy nghi yn baeddu, a yw'n dal i fod yn drosedd?

Pan fyddwch yn cerdded eich ci, eich cyfrifoldeb chi fydd gwyllo'r ci bob amser a gwneud yn siŵr eich bod yn glanhau ar ei ôl. Ni fydd bod yn anymwybodol o'r baeddu (oherwydd nad

Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn– Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

ydych yn ymyl neu reswm arall) neu ddim â dyfais neu ddull rhesymol arall i symud y baw yn esgus rhesymol dros beidio cydymffurfio â'r Gorchymyn.

2. Dulliau o godi'r baw

Beth sy'n ofynnol dan y rhan hon o'r Gorchymyn?

Mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gi ddangos dull o godi'r gwastraff ci os bydd Swyddog a Awdurdodwyd gan y Cyngor yn gofyn iddynt wneud hynny.

I ba dir y mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol?

Mae'r Rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol i bob tir cyhoeddus ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Sawl bag fydd disgwyl i berchnogion cŵn fynd gyda nhw?

Digon, gan nad yw'n bosibl rhagweld sawl gwaith y bydd ci yn baeddu pan fyddant yn mynd am dro. Gall gŵn ddiodef stumog drwg felly nid yw'n bosibl rhagweld beth all ddigwydd pan fyddwch yn mynd am dro.

Mae fy nghi bob amser yn baeddu yn yr ardd adref, felly does dim angen i mi fynd â bagiau, nac oes?

Nid yw cŵn yn hollol ddibynadwy. Mae'n amhosibl sicrhau na fydd ci yn baeddu wrth gerdded mewn man cyhoeddus. Gall gŵn ddiodef stumog drwg a dilyn eu greddf naturiol, felly mae cario bagiau cŵn digonol yn yswiriant yn erbyn damweiniau ac erlyniad posibl.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn anghofio mynd â bagiau gyda mi?

Byddai hyn yn golygu eich bod wedi methu cydymffurfio â gofynion y Gorchymyn a gellir rhoi Rhybudd Cosb Benodedig i chi.

Beth fydd yn digwydd os bydd fy nghi yn gwneud mwy o lanast nag yr oeddwn wedi'i ragweld ac fy mod yn rhedeg allan o fagiau ac mae swyddog yn dod ataf a gofyn os oes gen i fagiau?

Dylech gario digon o fagiau bob amser. Ond, bydd swyddogion yn ystyried yr esboniadau a roddir iddynt ac yn gweithredu yn deg. Gall Swyddogion Awdurdodedig roi cyngor ynglŷn â chario dulliau digonol o glirio'r baw ci i'r dyfodol. Efallai y byddant eisiau eich manylion i ddangos eu bod wedi rhoi cyngor addas i chi.

**Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn–
Cwestiynau a Ofynnir yn Aml**

3. Gwahardd Cŵn

Beth sy'n ofynnol dan y rhan hon o'r Gorchymyn?

Mae'r Rhan hon o'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i wahardd cŵn o barthau gwahardd penodol ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

I ba dir y mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol?

Bydd y rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol i'r canlynol:

- Pob Lle Chwarae Plant wedi'i Ffensio
- Pob Llecyn Chwarae Aml-ddefydd
- Pob Cwrt Tennis
- Pob Parc Sglefrio
- Pob Lawnt Fowlio
- Pob Maes Hamdden sy'n gysylltiedig â Sefydliadau Addysgol
- Ardal Chwarae Pob Maes Chwaraeon a Farciwyd, a
- Cae Chwarae Betws-yn-Rhos, Betws-yn-Rhos
- Caeau Chwarae Capel Garmon, Capel Garmon
- Cae Pêl-droed Cae Ffwt, Glan Conwy
- Caeau Chwarae Gyffin, Gyffin
- Ardal Hamdden Ffordd Gower, Trefriw
- Pwll Padlo Cymuned Llandudno / Craig y Don

- Traethau yn dymhorol rhwng 1 Mai a 30 Medi gan gynnwys y glan y môr a'r blaendraeth fel ym mhwyntiau i – vi isod
 - i. Bae Cinmel – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd rhwng y fynedfa i'r traeth o faes parcio St Asaph Avenue, Bae Cinmel, a'r fynedfa gyntaf i'r traeth o'r promenâd yn unol â phen draw maes parcio ASDA.
 - ii. Pensarn – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd rhwng y polion pren a fewnosodwyd yn gyfagos i adeilad y caffi a'r polion concriid a fewnosodwyd ar ben eithaf gorllewinol y promenâd.
 - iii. Traeth y Gogledd Llandudno – y darn o draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd sy'n ymestyn o Bier Llandudno i'r llithrfa gyntaf (ond heb gynnwys y lithrfa).
 - iv. Pen Morfa Llandudno – y darn o draeth sy'n ymestyn rhwng marc llanw isel a'r promenâd sy'n ymestyn rhwng y grwynau carreg
 - v. Penmaenmawr - y darn o draeth rhwng y marc llanw isel a'r promenâd o wal y traeth i'r llithrfa (ond heb gynnwys y llithrfa) sy'n gysylltiedig â'r clwb hwylio.
 - vi. Llanfairfechan – y darn o draeth sy'n ymestyn rhwng y marc llanw isel a'r promenâd rhwng y ddwy lithrfa (ond heb gynnwys y llithrfeydd)

Gwaharddiad traethau drwy gydol y flwyddyn fel yn vii – viii isod

- vii. Bae Colwyn – yr ardal draeth rhwng y marc llanw isel a wal y promenâd rhwng y llithrfa (ond heb gynnwys y llithrfa) sy'n gwasanaethu Porth Eirias a'r fynedfa risiog gyntaf i'r traeth i'r chwith o'r Pier.
- viii. Point Rhos, Llandrillo yn Rhos – rhan dywodlyd y traeth sydd heb ei olchi gan y llanw.

Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn– Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

A ganiateir mynd â chŵn i dir addysgol pan nad yw'r plant yn yr ysgol?

Na. Mae'r gwaharddiad yn berthnasol bob amser, gan fod perchnogion cŵn anghyfrifol yn caniatáu i'r cŵn faeddu ac yna yn peidio clirio'r baw, gan roi'r plant mewn perygl o ddal afiechyd.

A oes unrhyw eithriadau i'r rhan hon o'r Gorchymyn?

Oes, os yw'r ysgol yn dymuno rhoi caniatâd i gŵn ddod ar y tir i bwrpasau penodol, gallant wneud hynny. Os yw awdurdodau ysgol yn bwriadu cynnal digwyddiadau lle caniateir cŵn, mae'n rhaid rhoi gwybod i swyddog perthnasol y Cyngor yn ysgrifenedig.

Beth yw lleiniau chwaraeon 'wedi'u marcio'?

Ardaloedd sydd wedi'u marcio fel ardal neu lain chwaraeon. Y modd arferol ar gyfer adnabod ardaloedd o'r fath yw'r marciau gwyn. Mae'n rhaid i'r marciau fod yn glir, yn amlwg ac yn barhaus i'w nodi fel ardal a ddefnyddir i bwrpasau gweithgareddau chwaraeon.

Beth os yw'r ardaloedd ond yn cael eu defnyddio unwaith yr wythnos neu ar benwythnosau?

Byddant yn parhau i fod yn berthnasol i'r Gorchymyn.

A wyf yn cael mynd â'r ci i gae chwarae sy'n cynnwys llain chwaraeon wedi'i farcio?

Ydych, oni bai bod yr ardal gyfan yn barth wedi'i eithrio, caniateir i chi fynd â'ch ci i'r ardal o amgylch ffin y llain chwaraeon wedi'i farcio; bydd cŵn wedi'u gwahardd rhag mynd i'r ardal wedi'i farcio yn unig.

Beth os yw fy nghi ar dennyn, ga i fynd i'r Parth Gwaharddiad?

Mae'r Gorchymyn yn gwahardd cŵn o ardaloedd penodol, dim ots a ydynt ar dennyn neu beidio. Mae rhai cŵn yn cael eu rhoi ar dennyn hir sydd ddim yn atal cŵn rhag gwlychu a baeddu heb fod y perchennog yn hollol ymwybodol. Mae tebygolrwydd cryf y bydd cŵn yn gwlychu a baeddu gan eu bod yn ymateb yn naturiol i arogleuon dim ots a ydynt ar dennyn neu beidio.

Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn– Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

4. Cŵn ar dennyn

Beth sy'n ofynnol dan y rhan hon o'r Gorchymyn?

Mae'r Rhan hon o'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i gadw cŵn ar dennyn mewn ardaloedd 'cŵn ar dennyn' ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

I ba dir y mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol?

Bydd y rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol i'r canlynol:

- Pob ffordd (y mae'r term hwn yn cynnwys palmentydd, troedffyrdd ac ymylon) sydd â therfyn cyflymder o 40mya neu lai
- Pob mynwent a thir eglwys
- Caeau Chwarae Cae Derw, Cyffordd Llandudno; ac eithrio'r ardal ddynodedig wedi'i ffensio ar gyfer mynd â chŵn am dro,
- Cae Chwarae Betws-yn-Rhos, Betws-yn-Rhos
- Cae Chwarae Ffordd Pentywyn, Deganwy
- Yr Oval, Llandudno
- Tir Hamdden Maesdu Road, Llandudno
- Cae Chwarae Rowen, Rowen
- Llwybr Glanrafon o'r Bont i Faes Parcio Plas y Dre, Llanrwst
- Y llwybrau troed sy'n croesi ac amgylchynu'r Clwb Golff, Betws y Coed.
- Clwb Golff Gogledd Cymru, Llandudno
- Tir Cymunedol a Hamdden Llysfaen, Dolwen Road, Llysfaen
- Twyni Tywod, Bae Cinmel
- Tir Hamdden Llanfairfechan a'r tir o amgylch y Llyn Cychod gan gynnwys y tir cyn belled â therfyn pellaf "Kingswood", Llanfairfechan
- Y Tir Hamdden sy'n amgylchynu'r Cae Pêl-droed, y Lawnt Fowlio a'r Ardal Gemau Amldefnydd, Llansannan
- Cae Hamdden Parc Clwyd, Bae Cinmel, ac eithrio'r ardal wedi'i ffensio sydd wedi'i ddynodi ar gyfer rhoi ymarfer corff i gŵn
- Pob maes parcio
- Ystâd Gwrych, Abergele
- Ardal Parc Bodlondeb sy'n cynnwys y cae pêl-droed, y cae criced a'r cyrtiau tennis, Conwy
- Y llwybr rhwng Glan yr Afon Road ac Old Mill Road, Dwygyfylchi
- Y llwybr rhwng Conway Old Road ac Old Mill Road, Dwygyfylchi
- Y llwybr rhwng Ysguborwen Road a'r garej ger yr A55, Dwygyfylchi

A oes gofyniad hyd tennyn pan fo'r ci ar dennyn?

Oes, mae'n rhaid i chi ddefnyddio tennyn nad yw'n fwy na 2 fetr o hyd; os oes gennych dennyn y gellir ei ymestyn, ni ddylech ei ymestyn yn hirach na 2 fetr. Ni fydd tennyn hirach na 2 fetr yn rhoi'r rheolaeth angenrheidiol i fodloni'r rhan hon o'r Gorchymyn.

**Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn–
Cwestiynau a Ofynnir yn Aml**

5. Cŵn ar Dennyn Trwy Gyfarwyddyd

Beth sy'n ofynnol dan y rhan hon o'r Gorchymyn?

Mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gi ei roi ar dennyn os bydd Swyddog a Awdurdodwyd gan y Cyngor yn gofyn iddynt wneud hynny.

I ba dir y mae'r rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol?

Mae'r Rhan hon o'r Gorchymyn yn berthnasol i bob tir cyhoeddus ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

A oes gofyniad hyd tennyn ar gyfer cŵn ar dennyn trwy gyfarwyddyd?

Oes, mae'n rhaid i chi ddefnyddio tennyn nad yw'n fwy na 2 fetr o hyd; os oes gennych dennyn y gellir ei ymestyn, ni ddylech ei ymestyn yn hirach na 2 fetr. Ni fydd tennyn hirach na 2 fetr yn rhoi'r rheolaeth angenrheidiol i fodloni'r rhan hon o'r Gorchymyn.

Beth yw Tennyn?

I'r pwrpasau hyn, gall "dennyn" olygu unrhyw raff, cortyn, tennyn neu eitem debyg y gellir ei ddefnyddio i rwymo, rheoli neu atal ci. Felly, os byddwch yn rhoi eich ci ar dennyn, ond yna yn ei ollwng neu'n ei glymu i rywbeth arall addas fel bod y ci dal dan eich rheolaeth, byddwch yn dal i gyflawni trosedd.

Pryd gellir gofyn i mi roi fy nghi ar dennyn?

Gellir gwneud cais i chi roi ci ar dennyn dim ond os yw swyddog a awdurdodwyd yn credu bod angen gwneud hynny i atal niwsans, neu ymddygiad gan gi sy'n debygol o achosi niwsans neu aflonyddwch i unrhyw berson arall, neu'n debygol o beryglu diogelwch unrhyw berson, anifail neu ddefnyddiwr ffordd.

Pwy all roi cyfarwyddyd, a'i gwneud yn ofynnol i roi ci ar dennyn?

Gellir rhoi cyfarwyddyd gan "swyddog a awdurdodwyd gan y Cyngor". Mae gan hyn ystyr eang ac mae'n golygu person sydd wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Cyngor i bwrrpas rhoi cyfarwyddiadau dan y Gorchymyn. Gall hyn gynnwys person nad yw'n weithiwr y Cyngor, fel gweithwyr i gontractwr neu asiantaeth partneriaeth.

**Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn–
Cwestiynau a Ofynnir yn Aml**

Gorfodaeth

Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn cydymffurfio ag unrhyw ran o'r Gorchymyn?

Os bydd person sy'n gyfrifol am gi yn peidio cydymffurfio â gofynion y Gorchymyn, byddant yn cyflawni trosedd oni bai bod ganddynt ganiatâd gan y perchennog, neu'r preswylydd neu'r person sy'n gyfrifol am y tir i beidio cydymffurfio â'r Gorchymyn, neu bod ganddynt esgus rhesymol dros beidio cydymffurfio neu eu bod wedi'u heithrio o'r Gorchymyn.

Mae'n rhaid bod tystiolaeth ddigonol i ddangos bod trosedd wedi digwydd y tu hwnt i bob amheuaeth cyn y gellir cymryd camau.

A allaf gael Rhybudd Cosb Benodedig?

Gallwch, gellir rhoi Rhybudd Cosb Benodedig i berson sy'n mynd yn groes i'r Gorchymyn hwn, gan roi cyfle iddynt beidio cael eu herlyn trwy wneud un taliad unigol o £100.

Pryd mae'n rhaid talu'r gosb benodedig?

Mae'n rhaid ei dalu o fewn 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad hwn.

Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn talu'r gosb benodedig?

Os na fyddwch yn talu'r Rhybudd Cosb Benodedig o fewn y cyfnod a nodwyd, mae'n debygol y byddwch yn cael eich erlyn yn y llys ynadon.

Beth yw'r uchafswm cosb ar gyfer mynd yn groes i'r gorchymyn?

Bydd person a geir yn euog o drosedd yn y Llys Ynadon yn agored ar erlyniad diannod i ddirwy o ddim mwy na lefel 3 ar raddfa safonol dirwyon y Llys (£1000 ar hyn o bryd).

Mae'n rhaid i'r amgylchiadau basio'r cod tystiolaeth llawn a bod er lles y cyhoedd cyn i Rybudd Cosb Benodedig gael ei rhoi ac i erlyniad ddilyn.

Ymgynghoriad Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn– Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Materion eraill

Pwy ystyrir sy'n gyfrifol am y ci?

Ystyrir mai'r person sydd gyda'r ci ar adeg y drosedd sy'n gyfrifol am y ci. Nid oes rhaid i'r person hwnnw fod yn berchennog ar y ci. Mae hyn yn golygu os yw eich ci yn baeddu mewn man cyhoeddus, yn mynd i barth gwaharddiad neu yn torri'r Gorchymyn mewn unrhyw ffordd, y person sydd gyda'r ci ar y pryd sy'n gyfrifol. Os ydych wedi caniatáu i rywun arall fynd â'ch ci am dro, nhw fydd yn gyfrifol amdano tra byddant yn mynd am dro.

A yw'r Gorchymyn yn Berthnasol i Gŵn Gwaith?

Nid yw'r Gorchymyn yn berthnasol i weithgareddau arferol cŵn gwaith, tra bod y ci yn gweithio. Felly, ni fyddwn rhoi Rhybudd Cosb Benodedig nac yn erlyn os ydym yn fodlon bod ci yn gweithio pan dorrwyd y Gorchymyn.

Er enghraifft, ni fyddwn yn erlyn ar gyfer unrhyw dor gorchymyn gan:

Unrhyw gi sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith chwilio ac achub.
Unrhyw gi sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith gorfodi'r gyfraith.
Unrhyw gi sy'n cael ei ddefnyddio gan Luoedd Arfog Ei Mawrhydi.
Unrhyw gi sy'n cael ei ddefnyddio i hel neu symud gwartheg neu ddefaid.
Unrhyw gi sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfreithlon i ddal neu ddinistrio fermin.
Unrhyw gi neu gŵn sy'n cael eu defnyddio'n gyfreithlon i bwrpas hela.

Os oes gennych gi yr ydych yn ei ddefnyddio ar gyfer gwaith, bydd y Gorchymyn dal yn berthnasol i'r ci pan nad yw'n gweithio.

Sut fydda i'n gwybod lle y mae'r Gorchymyn mewn Grym?

Mae Baw Ci, Cŵn ar Dennyn trwy Gyfarwyddyd a Dulliau Codi yn droseddau ledled y Sir, ac felly bydd arwyddion cynghori a rhybuddio yn cael eu rhoi mewn ardaloedd problemus.

Bydd arwyddion cynghori mewn ardaloedd gwahardd cŵn a chŵn ar dennyn, ger y fynedfa i'r ardal.

Bydd yr wybodaeth am y Gorchymyn ar gael ar wefan y Cyngor.